Dyma'r canllawiau ar gyfer cronfa Ffilm Cymru:

# Cronfa Hybu Gyrfa

## Cynnwys


Cyflwyniad ....................................................................................2
O ble mae cyllid Hybu Gyrfa Ffilm Cymru yn dod? ..............................3
Beth yw meini prawf y gronfa hon? ..................................................3
Meini Prawf Cymhwysedd..........................................................3
Yr hyn y gallwn ei ariannu ........................................................4
Yr hyn na allwn ei gyllido..........................................................6
Cyfleoedd datblygu gyrfa wedi'u hargymell gan Ffilm Cymru ............7
Sut ydw i'n gwneud cais? ..............................................................8
Dyddiadau cau.........................................................................9
A allaf gael cymorth mynediad i gwblhau fy nghais?.......................9
Manylion Cyswllt ....................................................................10
Manylion y Gyllideb.................................................................10
Costau Mynediad a Chynhwysiant ..............................................12
Beth sy'n digwydd nesaf?.............................................................13
Y Broses Asesu.......................................................................13
Meini Prawf Asesu...................................................................13
Adborth .................................................................................14
Ailgyflwyno.............................................................................14
Sut ydw i'n gweithio gyda Ffilm Cymru os oes cyllid yn cael ei ddyfarnu i mi? .......................................................................16
Y broses o ddyfarnu arian.........................................................16
Beth fydd telerau ac amodau fy nghyllid? ....................................17
Telerau Busnes Safonol Ffilm Cymru Wales ....................................18

# Cyflwyniad

Dyma ganllawiau cronfa Hybu Gyrfa Ffilm Cymru.

Mae Ffilm Cymru yn gwmni buddiant cymunedol sydd â chylch gorchwyl i ddatblygu sector ffilm cynaliadwy yng Nghymru. Un o'r ffyrdd rydyn ni'n gwneud hyn yw darparu cymorth hyblyg i unigolion i'w helpu i gyrraedd y cam nesaf yn eu gyrfa, gan gydnabod bod gyrfa yn y diwydiant ffilm yn galw am fwy na syniad gwych am ffilm yn unig.

Rydyn ni'n gwybod y gall dod o hyd i gyfleoedd gwerthfawr yn y diwydiant ffilm fod yn ddryslyd ynddo'i hun ac yn aml mae yna bris a fyddai’n anymarferol i lawer. Dyna pam y gwnaethon ni greu'r Gronfa Hybu Gyrfa, sy'n darparu hyd at £10,000 o gyllid grant i awduron, cyfarwyddwyr neu gynhyrchwyr sydd wedi'u geni neu sy’n seiliedig yng Nghymru (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru).

Rydyn ni’n gwybod y byddai pawb yn elwa o gymorth o'r fath ond gan fod gennym swm cyfyngedig o gyllid, byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau gan wneuthurwyr ffilmiau newydd neu sy'n dod i'r amlwg, a'r rhai y byddai’r cyllid yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar yrfa'r ymgeiswyr ym myd ffilm.

Os oes unrhyw beth yn aneglur yn y canllawiau hyn, neu os hoffech gael cymorth i wneud cais, cysylltwch â ni, (gweler y Manylion Cyswllt isod).

## O ble mae cyllid Hybu Gyrfa Ffilm Cymru yn dod?

Mae cyllid Hybu Gyrfa Ffilm Cymru yn cynnwys Cronfeydd y Loteri Genedlaethol a ddirprwywyd drwy Gyngor Celfyddydau Cymru a chronfeydd RHWYDWAITH BFI a ddirprwywyd drwy Sefydliad Ffilm Prydain (BFI). Ni yw partner cyflawni RHWYDWAITH BFI yng Nghymru, sef cydweithrediad rhwng y BFI, sefydliadau ffilm cenedlaethol a lleoliadau diwylliannol blaenllaw ledled y Deyrnas Unedig. Mae RHWYDWAITH BFI yn darparu cyllid ar gyfer ffilmiau byrion a gwaith datblygu cynnar ar ffilmiau nodwedd, datblygiad proffesiynol gyda chefnogaeth y diwydiant a chymorth rhwydweithio i awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr 18 oed a hŷn.

## Beth yw meini prawf y gronfa hon?

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r BFI baramedrau cyllido y mae ein cyllid yn eu hadlewyrchu, a rheolau cyllido'r Loteri Genedlaethol yw rhai ohonynt. Yn ogystal â hyn, rydym wedi llunio ein cronfa Hybu Gyrfa mewn ymateb i'r anghenion a welsom yn ein 17 mlynedd o fodolaeth yn ogystal ag esblygiad y sector ffilmiau ehangach, dan arweiniad y gwneuthurwyr ffilmiau a ariannwn a'n Bwrdd[1].

### Meini Prawf Cymhwysedd

Gallwch wneud cais am gyllid Hybu Gyrfa os:

- Ydych chi dros 18 oed ac nid ydych chi mewn addysg amser llawn;
- Cawsoch eich geni neu rydych chi'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd;
- Rydych chi ar lwybr i ysgrifennu, cyfarwyddo neu gynhyrchu ffilm nodwedd (gan gynnwys animeiddio a ffilm ddogfen) ar

[1] https://ffilmcymruwales.com/index.php/cy/about-us/ein-bwrdd

gyfer cynulleidfaoedd sinema. Yn ymarferol mae hyn yn golygu y gallech chi fod wedi gwneud rhywfaint o waith ar gyfer y sgrin neu mewn ffurf gysylltiedig ar gelfyddyd a bod gennych rai syniadau am ffilm nodwedd mewn golwg, neu efallai eich bod ar gam datblygedig o ddatblygu ffilm nodwedd. Mae’n rhaid bod gennych chi uchelgais i greu ffilm nodwedd sinematig ond ni ddylech fod wedi arwain ar ffilm nodwedd (boed yn ffilm gweithredu byw, wedi'i hanimeiddio neu'n ffilm ddogfen) sydd wedi’i dosbarthu’n fasnachol yn y DU.

Rydyn ni’n arbennig o awyddus i dderbyn ceisiadau sydd o fudd i unigolion sy'n uniaethu fel rhywun sydd: o hil neu ethnigrwydd heb gynrychiolaeth ddigonol; yn F/fyddar, yn anabl neu'n niwroamrywiol; neu o gefndir dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Yr hyn y gallwn ei ariannu

Mae tair elfen o gymorth y gallwn eu cynnig: grantiau teithio, grantiau cyfle a chronfeydd arddangos. Gweler isod i gael rhagor o wybodaeth.

Ar draws y tair elfen, rydyn ni’n annog ymgeiswyr i ofyn am gymorth hefyd tuag at unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd a'u perthynas â nodwedd warchodedig (er enghraifft Anabledd), â’u statws economaidd-gymdeithasol neu â bod yn rhiant neu'n ofalwr (gweler Costau Mynediad a Chynhwysiant).

### 1. Grantiau Teithio

Gallwn gynnig grantiau teithio i hyd at bedwar unigolyn er mwyn iddyn nhw allu mynd i gyfarfodydd cyffredinol yng Nghaerdydd, Llundain neu hybiau eraill y cyfryngau yn y DU a fyddai o fudd i'w gyrfa dros gyfnod o chwe mis.

Bydd angen i ymgeiswyr am grantiau teithio nodi pobl a sefydliadau penodol yn y diwydiant y gallan nhw gyfarfod â nhw yn eu dewis leoliad a dangos yr effaith y gallai hyn ei chael ar eu gyrfa.

## 2. Grantiau Cyfle

Gallwn gynnig cymorth i gymryd rhan mewn digwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi sy’n cael eu cydnabod gan y diwydiant.

Fe welwch restr o raglenni a chyfleoedd rydyn ni'n eu hargymell isod. Mae'r rhestr hon ymhell o fod yn gynhwysfawr ond dylai roi rhywfaint o arweiniad i chi ar y pethau y dylech chi fod yn gwneud cais amdanyn nhw neu'n gweithio tuag atyn nhw. Nid yw pob hyfforddiant yr un fath ac nid yw llawer ohono wedi'i anelu'n ddigonol at agweddau penodol ffilmiau y bwriedir iddyn nhw gael eu rhyddhau mewn theatrau, sy'n ffocws allweddol i'n cymorth ni.

Rydyn ni hefyd yn agored i gynlluniau mentora strwythuredig, meddylgar â thâl rydych chi'n eu dylunio eich hun gyda mentor neu fentoriaid addas mewn golwg.

## 3. Cronfeydd Arddangos

Gallwn ni gynorthwyo â chostau datblygu eich rîl arddangos neu wefan.

Gallwch wneud cais am gymorth i dalu costau sy'n gysylltiedig â datblygu eich gwefan broffesiynol neu wefan eich cwmni, neu elfennau o ôl-gynhyrchu ar rîl arddangos fel golygu, sain, graddio, capsiynau caeedig, sain ddisgrifio a cherddoriaeth. Fodd bynnag, ni ddylech fod wedi dechrau ar yr elfen ôl-gynhyrchu y mae angen cymorth arnoch yn ei chylch cyn gwneud cais.

## Yr hyn na allwn ei gyllido

Ni allwn gyllido'r canlynol drwy'r gronfa hon:

- Costau y gallai cyllidwyr eraill eu talu. Yn benodol ni allwn ariannu gweithgaredd sydd eisoes yn cael ei dalu gan gyllidwyr eraill y Loteri Genedlaethol fel cynllun Grant Teithio'r British Council[2]
- Cyrsiau academaidd neu ddamcaniaethol yn unig, israddedig, ôl-raddedig neu feistr rhan-amser neu amser llawn
- Unigolion o dan 18 oed neu mewn addysg amser llawn
- Gwneuthurwyr ffilmiau sydd eisoes wedi arwain ar ffilm nodwedd (boed yn weithredu byw, dogfen neu animeiddiad) neu ffilm ddogfen sydd wedi ei dosbarthu'n fasnachol yn y DU
- Gweithgaredd sy'n bennaf yn cynorthwyo datblygiad criw neu actorion
- Gweithgaredd sydd eisoes wedi digwydd neu a fydd wedi digwydd cyn i ni wneud dyfarniad
- Cyllid ar gyfer datblygu neu gynhyrchu ffilm unigol.

[2] https://film.britishcouncil.org/opportunities/travel-grants-fund

# Cyfleoedd datblygu gyrfa wedi'u hargymell gan Ffilm Cymru

Noder bod cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan y BFI wedi'u cynnwys isod at ddibenion gwybodaeth yn unig ac ni fyddent yn gymwys i gael cymorth drwy'r gronfa hon.

| Gweithgaredd | Wedi'i anelu at | Gwefan |
|---|---|---|
| ACE Producers | Cynhyrchwyr sy'n berchen ar neu'n gysylltiedig â chwmni cynhyrchu ac sydd wedi arwain ar ffilm nodwedd a ryddhawyd mewn theatrau | https://ace-producers.com/programme/eligibility/ |
| EAVE – European Audiovisual Entrepreneurs – Producers Workshop | Cynhyrchwyr (ffuglen, ffilmiau dogfen a chyfresi teledu), sydd eisoes yn gweithio yn y diwydiannau ffilm a theledu, ac sy'n dymuno ehangu eu gweithrediad yn rhyngwladol trwy gynyddu eu gwybodaeth am gynhyrchu a chyd-gynhyrchu yn Ewrop a thrwy adeiladu rhwydwaith proffesiynol rhyngwladol | https://eave.org/programmes/eave-producers-workshop-2026 |
| BAFTA | Amrywiaeth o raglenni a bwrsariaethau yn cefnogi talent newydd ym myd y sgrin yn ogystal â thalent canol gyrfa (Bafta ELEVATE) | https://www.bafta.org/programmes/access-early-career-support/ |
| BBC Writers' Room | Awduron sydd â rhywfaint o brofiad yn y diwydiannau creadigol sydd â diddordeb mewn ysgrifennu ar gyfer teledu | https://www.bbc.co.uk/webarchive/https%3A%2F%2Fwww.bbc.co.uk%2Fblogs%2Fwritersroom%2Fauthors%2Fbfb331af-eaec-4938-81f6-02d080f938eb |
| Berlinale Talents | Gwneuthurwyr ffilmiau, cyfresi a chrewyr cynnwys XR sydd â hanes o waith blaenorol | https://www.berlinale-talents.de/bt/page/c/main |
| BFI DOC Society RISE Producer Programme | Rhaid i ymgeiswyr fod yn gweithio ar eu ffilm ddogfen hyd nodwedd gyntaf fel prif gynhyrchydd, naill ai'n annibynnol neu o fewn cwmni cynhyrchu | https://bfi.docsociety.org/rise-2025/ |
| BFI NETWORK @ LFF | Awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr sy'n dod i'r amlwg ac sy'n gweithio tuag at eu ffilm nodwedd gyntaf | https://www.bfi.org.uk/get-funding-support/bfi-network/bfi-networklff |
| BIFA Springboard | Wedi'i gynllunio i gefnogi awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr i barhau a datblygu eu gyrfaoedd ar ôl cynhyrchu ffilm nodwedd gyntaf | https://www.bifa.film/about/springboard/ |
| Cinema de Demain | Amrywiaeth o raglenni sy'n cael eu cynnig gan Ŵyl Ffilm Cannes, yn bennaf wedi'u hanelu at awduron/cyfarwyddwyr | https://cinemadedemain.festival-cannes.com/ |

| | | |
|---|---|---|
| Creative UK | Amrywiaeth o raglenni sy'n canolbwyntio'n bennaf ar entrepreneuriaeth greadigol | https://www.wearecreative.uk/support/creative-enterprise/ |
| Grierson DocLab | Amrywiaeth o gynlluniau sydd wedi'u hanelu'n bennaf at ar rolau Teledu a Ffrydwyr | Cynlluniau hyfforddi a mentora Grierson DocLab |
| Inside Pictures | Datblygu cynhyrchwyr/entrepreneuriaid sgrin o'r radd flaenaf – mae angen 5 mlynedd o brofiad ym maes ffilm neu deledu | https://inside-pictures.com/ |
| LIM – Less is More-labordy datblygu ffilm | Awduron ac awduron-gyfarwyddwyr gyda phrosiect nodwedd cyntaf, neu ail neu drydydd, yn ogystal ag artistiaid sy'n dod o faes theatr, ffilmiau dogfen a'r celfyddydau gweledol, sy'n gwneud cais ar gyfer prosiect yng nghyfnod cynnar ei ddatblygiad | https://lim-lessismore.eu/ |
| MIT Open Documentary Lab | Yn dod â storïwyr, technolegwyr ac ysgolheigion ynghyd i archwilio ffurfiau newydd ar ffilmiau dogfen | https://opendoclab.mit.edu/ |
| Rotterdam Lab | Cynhyrchwyr ar ddechrau eu gyrfaoedd | https://iffr.com/en/iffr-pro/talent-development/rotterdam-lab |
| Sundance Labs | Mae rhaglenni artistiaid Sefydliad Sundance yn darparu cymorth deinamig ym mhob cam o'r daith greadigol i unigolion â lleisiau unigryw ym myd ffilm ac adrodd stori ar ffurf penodau | https://www.sundance.org/apply/ |
| Torino Film Labs | Amrywiaeth o labordai ar gael | https://www.torinofilmlab.it/ |
| WFTV Four Nations Mentorship Scheme | Menywod canol gyrfa ym myd ffilm, teledu a'r cyfryngau digidol (mwy na 5 mlynedd o brofiad) | https://www.wftv.org.uk/mentoring |

## Sut ydw i'n gwneud cais?

Am ein bod ni'n rheoli arian cyhoeddus, mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym yn rhoi mantais annheg i unrhyw ymgeiswyr a bod gennym brosesau clir a thryloyw ar waith. Mae hynny'n golygu na allwn asesu prosiectau'n anffurfiol a bod yn rhaid i chi wneud cais drwy gyflwyno'r ffurflen gais sydd i'w gweld ar ein gwefan i network@ffilmcymruwales.com ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau ategol gofynnol (oni bai y cytunir ar fformat arall o wneud cais i gefnogi mynediad).

Ni allwn ystyried ceisiadau dyfaliadol a gyflwynir drwy unrhyw ddull arall.

Mae'n bwysig eich bod yn ymateb i bob cwestiwn yn y ffurflen oni bai ei fod wedi'i ddisgrifio fel dewisol, gan na fydd ffurflenni anghyflawn yn cael eu hasesu. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn gofyn i chi lenwi ac ailgyflwyno eich cais.

Ein nod yw cysylltu yn ôl â phobl o fewn pedair wythnos i gyflwyno eu ffurflen orffenedig.

Mae gan rai o gwestiynau'r cais opsiynau i gyflwyno atebion mewn fformat ysgrifenedig, fideo neu nodyn llais. Fel arall, fe allwch chi ymateb i'r cwestiynau naratif yn y ffurflen drwy alwad fideo neu alwad ffôn fyw gyda'n tîm. Dylai hyn gael ei drefnu ymlaen llaw cyn y dyddiad cau. Bydd yr alwad hon yn cael ei recordio a'i rhannu gyda'n panel o aseswyr.

## Dyddiadau cau

Byddwn yn asesu ceisiadau hybu gyrfa o gwmpas y dyddiadau cau canlynol

- 28ain Tachwedd 2025, hanner dydd
- 27ain Chwefror 2026, hanner dydd

Rydym yn gobeithio gallu parhau â'r gronfa yn y flwyddyn ariannol nesaf ond efallai y bydd seibiant byr tra byddwn yn ail-ymgeisio am gyllid ar gyfer ein gweithgarwch.

## A allaf gael cymorth mynediad i gwblhau fy nghais?

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n f/Byddar, yn Anabl, yn niwroamrywiol, neu sydd yn

colli eu golwg neu eu clyw, mae cymorth pellach ar gael hefyd i gwblhau cais. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod â ni cyn gwneud cais, neu gymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau gwahanol ar gyfer gwneud cais fel fideo byr neu ddec sleidiau. Cysylltwch â ni i drafod sut y gallwn helpu cyn i chi wneud cais (gweler y Manylion Cyswllt isod).

## Manylion Cyswllt

Rhaid e-bostio ceisiadau wedi'u cwblhau i network@ffilmcymruwales.com oni bai ein bod wedi cytuno ar ddull arall o gyflwyno.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu geisiadau mynediad, cysylltwch â:

**Siobhan Lynn Brennan, Swyddog Gweithredol Sgiliau a Thalent**: siobhan@ffilmcymruwales.com

neu ffoniwch 02922 676711 a gadewch neges gan roi eich enw, rhif ffôn, amseroedd cyfleus o'r dydd i ffonio, a dweud eich bod yn gofyn am gymorth mynediad ar gyfer y gronfa Hybu Gyrfa.

## Manylion y Gyllideb

- Y swm uchaf y byddwn yn ei ddyfarnu yw £10,000 ond rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'r dyfarniadau fod yn llawer is na hyn ac yn yr ystod o £500 i £3,000.
- Ni fyddem fel arfer yn disgwyl talu 100% o'r costau oni bai nad oedd opsiwn arall i'r ymgeisydd a dylech archwilio a oes cymorth arall ar gael naill ai gan y sefydliad sy'n cynnig y cyfle (yn enwedig os yw'n fwy na Ffilm Cymru) neu o leoedd fel Screenskills, British Council, Llywodraeth Cymru neu

Ymddiriedolaeth Castio Ymddiried[3]). Gallwn gyd-ariannu â sefydliadau eraill nad ydynt yn cael eu hariannu gan y Loteri dim ond os oes gan y sefydliad arall gap (e.e. 50%) ar y cyfraniad y gallant ei wneud ac os na all yr ymgeisydd fforddio unrhyw gyfraniad at y costau.

- Rhowch gymaint o fanylion â phosibl am eich cyllideb arfaethedig yn eich ffurflen gais.
- Ni ellir defnyddio arian y Loteri yn ôl-weithredol / ar gyfer gweithgarwch sydd eisoes wedi digwydd.
- Dylai'r holl eitemau llinell yn y gyllideb fod yn rhesymol (e.e. ni allwn dalu costau teithio neu lety dosbarth cyntaf). Rhaid i dreuliau sy'n gysylltiedig â'r prosiect fod yn unol â'r canlynol:
    - llety y noson (ar gyfer dinas fawr neu dramor): £150
    - llety y noson - rhanbarthol yn y DU: £135
    - teithio gan gynnwys teithiau hedfan: economi yn unig, dim hedfan o fewn tir mawr y DU a dim tacsis oni bai eu bod yn gysylltiedig â gofyniad mynediad.
    - cynhaliaeth (bwyd): £40 y dydd.
    - Dim ond os ydynt yn hanfodol i'ch profiad dysgu neu eich gallu i feithrin perthnasoedd yn y diwydiant y mae Ffilm Cymru yn ariannu costau teithio a llety. Byddem yn disgwyl i dimau ddefnyddio offer cyfarfodydd ar-lein ar rai achlysuron ac i leihau teithio a gweithredu yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd amgylcheddol.
    - Dim ond at brydau/cynhaliaeth sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â theithio a llety a gymeradwywyd y byddem yn cyfrannu.

---

[3] http://film.britishcouncil.org/on-going-projects/labs-travel-grant1
https://film.britishcouncil.org/opportunities/short-film-travel-grant
https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/New%20-%20OBDV%20Flyer%20-%20English.pdf; https://www.ymddiried.cymru/cy/

- RHAID i bob gweithiwr llawrydd sy'n cael eu cyflogi i'ch cynorthwyo dderbyn o leiaf Cyflog Byw am eu hamser, oni bai bod sefydliad partner wedi cynnig adnoddau staff i chi fel cyfraniad mewn nwyddau ac yn gallu fforddio gwneud hynny.
- Nid oes angen i chi roi ffigurau ar gyfer pob eitem llinell yn y gyllideb dempled. Caiff y rhain eu darparu fel awgrym o'r costau y gallwch wneud cais amdanynt.
- Rhaid i bob cost a gyllidebwyd gynnwys TAW.

## Costau Mynediad a Chynhwysiant

Gallwch ofyn am gymorth at gostau mynediad a chynhwysiant o hyd at £500 sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgaredd rydych chi'n gofyn am gymorth tuag ato.

Rydyn ni’n diffinio'r costau hyn fel costau sy'n gysylltiedig â'ch perthynas â nodwedd warchodedig, â'ch cefndir neu statws economaidd-gymdeithasol, neu â bod yn rhiant neu'n ofalwr. Mae enghreifftiau yn cynnwys dehonglydd BSL, costau cludiant neu lety ychwanegol ar gyfer person Anabl, neu gynorthwyydd personol ar gyfer person ag anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl.

Ni fydd unrhyw gostau mynediad i chi nac unrhyw un arall sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch cynllun hybu gyrfa yn cyfrif tuag at uchafswm y dyfarniad.

# Beth sy'n digwydd nesaf?

## Y Broses Asesu

Bydd eich cais yn cael ei asesu o fewn pedair wythnos o gyflwyno cais llawn.

Bydd y ceisiadau’n cael eu hasesu gan o leiaf ddau aelod o'r Adran Gynhyrchu. Gallai aseswyr allanol gael eu defnyddio hefyd, yn dibynnu ar natur a chyfanswm nifer y ceisiadau fydd wedi’u derbyn.

Mae’n bosibl y byddwn yn cynnig dim, y cyfan, neu rywfaint o’r cyllid rydych chi wedi gofyn amdano.

## Meini Prawf Asesu

Rydym yn ystyried pob un o’r canlynol wrth asesu a ddylid cynnig cyllid:

- Dealltwriaeth yr ymgeiswyr o'r hyn sydd ei angen arnynt i gyrraedd cam nesaf eu gyrfa ac eglurder y canlyniadau a fwriedir ar gyfer y cynnig
- Effaith bosibl y cynllun ar yr ymgeisydd, yn enwedig yn eu taith tuag at greu eu ffilm nodwedd sinematig gyntaf
- Hyfywedd y cynllun o ran cyllideb, amserlen a chymwysterau unrhyw bersonél neu sefydliadau allweddol
- Gallu a photensial y gwneuthurwr ffilmiau fel sy’n cael ei ddangos gan eu gwaith blaenorol a'u gweledigaeth greadigol
- Yn achos cyllid cwblhau, y rhinwedd artistig a'r potensial i'r gwaith gyrraedd cynulleidfaoedd sinema
- Cydbwysedd y dyfarniadau a wnaed drwy'r gronfa

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Bydd y broses asesu hefyd yn ystyried sut rydych wedi rheoli unrhyw gyllid blaenorol a gawsoch gan Ffilm Cymru.

Byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau gan wneuthurwyr ffilmiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ac sydd â'r potensial mwyaf o elwa o effaith y cynllun ar eu gyrfa.

## Adborth

Bydd pob penderfyniad yn cael ei gadarnhau trwy e-bost. Pan fydd cynnig yn aflwyddiannus bydd esboniad byr yn cael ei gynnwys.

Rydyn ni'n derbyn nifer fawr o geisiadau ac nid oes gennym ni'r adnoddau i roi adborth mwy manwl ar bob cais a dderbyniwn. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd y tîm yn cysylltu â chi i drafod adborth ymhellach trwy alwad, yn ôl disgresiwn y tîm ac yn dibynnu ar beth fydd yn bosibl ei gyflawni.

## Ailgyflwyno

Nid oes modd ailgyflwyno ceisiadau a wrthodwyd yn flaenorol heb gymeradwyaeth Ffilm Cymru. Dylai ceisiadau sy'n cael eu hailgyflwyno ddangos newidiadau sylweddol sy'n mynd i'r afael ag unrhyw adborth blaenorol gan Ffilm Cymru. Nid yw mynd i'r afael â'r adborth a ddarparwyd gan Ffilm Cymru yn y cais a ailgyflwynwch yn gwarantu y bydd yn llwyddiannus.

Os ydych yn bodloni'r maen prawf hwn ac yn cyflwyno cais newydd ar gyfer yr un cynnig, mae'n rhaid i chi nodi elfennau diwygiedig y cynnig yn glir yn y cais.

Os ydych am ailgyflwyno prosiect sydd wedi derbyn cynnig cyllid yn flaenorol ac sydd wedi'i ailgylchu, rhaid iddo gael ei drafod gydag aelod o'r tîm a dylech allu dangos tystiolaeth bod y cynnig bellach yn weithredol ac yn flaenoriaeth i'ch tîm.

BFI NETWORK

Noder, os yw eich cynnig wedi cael ei wrthod ddwywaith, ni fyddwch yn cael ei gyflwyno eto, felly ystyriwch yn ofalus pryd i ailgyflwyno cynnig.

## Sut ydw i’n gweithio gyda Ffilm Cymru os oes cyllid yn cael ei ddyfarnu i mi?

Pan fyddwn yn dechrau gweithio gyda chi, byddwn yn datblygu 'addewid partneriaeth' i ddechrau sgwrs gyda chi am sut y gallwn gefnogi ein gilydd i wneud ein gwaith gorau. Gallai hyn olygu ein bod yn deall i beidio â’ch ffonio o gwmpas amser casglu plant o’r ysgol, er enghraifft, neu, os yn bosibl, i gysylltu â chi drwy e-bost yn hytrach na’r ffôn oherwydd colli clyw neu f/Fyddardod. Ni fydd yn orfodol i chi rannu unrhyw ran o'r wybodaeth hon.

Mae gan dîm Ffilm Cymru ddegawdau o brofiad ym maes datblygu talent a’r diwydiant ffilmiau a byddant yno i’ch cefnogi gyda chyflwyniadau a chyngor. Os bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu i chi, efallai y byddwn yn mireinio eich cynllun mewn cydweithrediad â chi.

Fel derbynnydd dyfarniad, byddwch hefyd yn cael eich cyflwyno i'r garfan o wneuthurwyr ffilmiau rydyn ni'n eu hariannu mewn digwyddiadau rhwydweithio, fel y gallwch ddod yn rhan o garfan gefnogol, os ydych chi eisiau.

Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau eich bod yn bodloni eich rhwymedigaethau contractiol, gan ganiatáu digon o amser i Ffilm Cymru adolygu a rhoi adborth a chymeradwyaeth.

### Y broses o ddyfarnu arian

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd Ffilm Cymru yn darparu contract byr, a fydd yn amlinellu holl delerau ac amodau eich cyllid.

## Beth fydd telerau ac amodau fy nghyllid?

Mae gan Ffilm Cymru Delerau Cyllido Safonol ond efallai y bydd yn pennu amodau cyllido arbennig ychwanegol ar gyfer eich cynnig a fydd yn cael eu nodi yn eich cytundeb.

Noder nad yw ein Telerau Safonol yn agored i drafodaeth. Ni fydd unrhyw ffioedd cyfreithiol yn benodol ar gyfer adolygu cytundeb cyllido Ffilm Cymru yn cael eu cynnwys yn eich cyllideb.

Mae ein Telerau Safonol yn cynnwys:

- Bydd cynnig o gyllid yn parhau ar agor am gyfnod penodol (6 mis fel arfer). Os na fydd y broses o dynnu arian i lawr yn dechrau o fewn y cyfnod hwn, gallai'r cynnig cyllid gael ei ddirymu;
- Bydd Ffilm Cymru yn talu mewn rhandaliadau wedi'u gosod yn erbyn cychwyn ar weithgarwch allweddol a'i gyflawni;
- Bydd angen i Ffilm Cymru gymeradwyo elfennau allweddol o'r cynnig, ac ni chaiff cymeradwyaeth ei hatal yn afresymol;
- Bydd angen i chi ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o unrhyw gyllid partneriaeth neu gyfraniad mewn nwyddau (os yw'n berthnasol);
- Bydd angen i chi roi cydnabyddiaeth i Ffilm Cymru mewn unrhyw ddeunydd marchnata anffurfiol neu fel arall sy'n gysylltiedig â'r cynllun, gan gynnwys logos Ffilm Cymru, BFI NETWORK a'r Loteri Genedlaethol os yn bosibl;
- Bydd angen i chi gyflwyno anfonebau a derbynebau sy'n dangos gwariant yn unol â'r contract;
- Bydd angen i chi gyflwyno o leiaf 3 delwedd eglur iawn sy'n ymwneud â'ch cynllun;
- Bydd angen i'ch dyfarniad gydymffurfio â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 y DU ac unrhyw reolau a rheoliadau

rheoli cymorthdaliadau perthnasol eraill, fel sy'n ofynnol gan lywodraeth y DU, a all newid.

- Darpariaethau terfynu safonol.

## Telerau Busnes Safonol Ffilm Cymru Wales

Mae’r Telerau Busnes Safonol (“Telerau Safonol”) hyn yn rhan o unrhyw gytundeb ariannu (“Cytundeb Ariannu”) a roddir gan Ffilm Cymru Wales CBC (FfCW) mewn perthynas â’ch prosiect (“Prosiect”) a dylid eu darllen ar y cyd â’r cytundeb hwnnw. Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y ddau, y Cytundeb Ariannu fydd yn drech.

1. Gall y gyfraith a rheoliadau Llywodraeth ynglŷn â dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru newid. Mae FfCW felly yn cadw’r hawl i adolygu cynlluniau ariannu a/neu newid ei bolisïau, gweithdrefnau a meini prawf asesu.

2. Ni fydd FfCW yn atebol am unrhyw golled, difrod na chostau a gwyd yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol o:
   - Y broses ymgeisio;
   - Penderfyniad FfCW i beidio â darparu dyfarniad i ymgeisydd; neu
   - Ymdrin â chais.

3. Mae penderfyniadau FfCW ar geisiadau yn derfynol. Ni chaiff apeliadau ffurfiol yn erbyn penderfyniadau eu hystyried oni bai bod gan yr ymgeisydd achos da i gredu na lynwyd wrth y gweithdrefnau ar gyfer prosesu’r cais neu eu bod wedi’u cymhwyso yn y fath fodd fel y niweidiwyd canlyniad y cais. Mae Polisi Cwynion FfCW i’w weld ar ein gwefan.

4. Nid oes rheidrwydd ar FfCW i dalu unrhyw arian hyd nes y bydd wedi derbyn copi wedi’i weithredu’n llawn o’r Cytundeb

Ariannu a hyd nes y bodlonwyd unrhyw rag-amodau fel a ddiffiniwyd yn y Cytundeb Ariannu.

5. Rhaid i bob dyfarniad gydymffurfio â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 y DU ac unrhyw reolau a rheoliadau rheoli cymorthdaliadau perthnasol eraill, fel sy'n ofynnol gan lywodraeth y DU, a all newid. Er mwyn bodloni gofynion tryloywder cymorthdaliadau, mae'n ofynnol i FfCW gyhoeddi manylion unrhyw gwmni sy'n derbyn mwy na £100,000 o gyllid gennym (gan gynnwys yn gronnol yn ystod y broses o ddatblygu neu gynhyrchu'r ffilm) ar y gronfa ddata tryloywder cymorthdaliadau (y Gronfa Ddata Cymorthdaliadau) o fewn tri mis i ddyddiad y dyfarniad (neu'r dyddiad y mae'r dyfarniadau cronedig yn fwy na £100,000). Bydd y manylion a gyhoeddir yn cynnwys o leiaf: Swm y cymhorthdal a dderbyniwyd (swm y dyfarniad), enw'r cwmni, rhif cofrestru'r cwmni, maint y cwmni, bod y cwmni'n ddarparwr nwyddau, rhanbarth, sector.

6. Mae'n ofynnol i FfCW yn fwy cyffredinol gyhoeddi gwybodaeth am nifer y ceisiadau y mae'n ei dderbyn, a'r dyfarniadau a wneir: bydd y wybodaeth hon yn cynnwys enw'r ymgeisydd llwyddiannus, swm y dyfarniad, enw'r prosiect a manylion llinell uchaf y prosiect.

7. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl i aelodau'r cyhoedd wneud cais am wybodaeth benodol y mae FfCW yn ei dal ar ran ein cyllidwyr. Felly, os byddwch yn dewis gwneud cais i FfCW, gall y wybodaeth a roddwch gael ei rhyddhau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn gyfan neu'n rhannol, oni bai bod sail ddigonol o dan y Ddeddf i'w dal yn ôl, fel yn achos gwybodaeth fasnachol sensitif, er enghraifft.

8. Mae FfCW wedi ymrwymo i wella cynaliadwyedd diwydiant sgrin Cymru. Gofynnwn i bob tîm sy'n ymgeisio lenwi ffurflenni monitro amrywiaeth ac i bob ymgeisydd llwyddiannus

ddatblygu cynlluniau cynaliadwyedd, y maent yn adrodd yn eu herbyn. Gall FfCW gyhoeddi unrhyw ddata amrywiaeth dienw rydych yn ei ddarparu yn flynyddol wedi'i gyfanredu â data ceisiadau a data dyfarniadau eraill; ceir manylion pellach am hyn yn ein Polisi Preifatrwydd: https://ffilmcymruwales.com/index.php/cy/amdanom-ni/ein-polisiau

9. Mae FfCW yn mynnu bod unrhyw fesurau a gymerir gan ymgeiswyr i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 – mae mwy i'w weld fan yma: equalityhumanrights.com

10. Mae FfCW yn dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Ffilm Prydain ac arian gan Gymru Greadigol Llywodraeth Cymru. Yn dibynnu ar y cyllid a dderbynnir, bydd yn ofynnol i dderbynwyr cyllid roi cydnabyddiaeth i FfCW, Cyngor Celfyddydau Cymru a/neu'r BFI (gyda chydnabyddiaeth gyfatebol i'r Loteri Genedlaethol) a/neu Lywodraeth Cymru, yn yr holl ddeunyddiau llafar ac ysgrifenedig/cyhoeddedig sy'n ymwneud â'r Prosiect gan gynnwys defnyddio logos, fel y'i darperir. Ers i'r Loteri Genedlaethol ddechrau ym 1994, mae cymorth cyhoeddus – a godwyd yn uniongyrchol drwy werthiant tocynnau'r Loteri Genedlaethol – wedi ariannu mwy na 670,000 o brosiectau, gan godi mwy na £46 biliwn at achosion da. Fel derbynnydd, mae'n bwysig cydnabod ffynhonnell y cyllid hwn yn gyhoeddus drwy gydol oes y prosiect. Mae cyfathrebu'n effeithiol bod y prosiect yn cael ei gynorthwyo gan gyllid y Loteri Genedlaethol yn sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â'r gwaith yn cydnabod gwerth a budd y cyllid Achosion Da unigryw hwn. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gyfrifol am roi cydnabyddiaeth amlwg i gyllid y Loteri Genedlaethol a diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, a lle bo modd, manteisio ar elfennau mwyaf deniadol a chyffrous y prosiect er mwyn cyrraedd y

gynulleidfa fwyaf posibl. Bydd manylion ynghylch sut i wneud hyn yn cael eu darparu unwaith y bydd dyfarniad wedi'i wneud.

11. Os oes gan ymgeiswyr neu aelodau eu tîm craidd unrhyw berthynas ag aelodau staff neu fwrdd FfCW, neu ein cyllidwyr allweddol, rhaid i'r ymgeisydd nodi hyn yn ei ffurflen gais. Cynghorir ymgeiswyr i beidio â cheisio dylanwadu ar lwyddiant eu cais trwy gysylltu ag aelodau'r bwrdd neu unrhyw un heblaw'r person sy'n bwynt cyswllt ar gyfer y cais.

12. Gall FfCW ddal dyfarniad yn ôl neu adennill dyfarniad yn yr amgylchiadau canlynol:

- mae'r cais wedi'i lenwi'n anonest neu â gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol am y sefydliad neu'r prosiect boed yn fwriadol neu'n ddamweiniol;
- os yw derbynwyr dyfarniad yn ymddwyn yn anonest neu'n esgeulus er anfantais i'r prosiect
- AC
- unrhyw doriad arall fel a ddiffinnir gan y Cytundeb Ariannu.